OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1722 (Cy.134)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *28 Mehefin 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 105, 108, 150 a 152 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**):

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2003" ("*2003 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003(**2**).

**Diwygio Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003**

**2.** Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 2003 rhodder y diffiniad a ganlyn lle bynnag y bo'n briodol —

"mae i "partner sifil" yr ystyr a roddir i "*civil partner*" yn adran 1(1) o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004(**3**)

**3.** Mewnosodir y geiriau "yn bartner sifil," ar ôl y geiriau "yn briod," yn rheoliad 4(3)(c), (ch) a (d) o Reoliadau 2003.

**4.** Rhodder y testun a ganlyn yn lle rheoliad 4(5) o Reoliadau 2003 —

"(5) Y pedwerydd amod yw bod y person heb gyrraedd safon cymhwyster addysgol sy'n uwch na Lefel 2 neu ei chyfwerth fel a nodwyd yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol, oni bai bod y person hwnnw yn cael budd-daliadau neu lwfansau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ei fod yn ddibynnydd person o'r fath."

**5.** Yn Rheoliadau 2003 mewnosoder yr Atodlen fel a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2000 p.21.
(**2**) O.S. 2003/918 (Cy.119).
(**3**) 2004 p.33.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mehefin 2005

(**4**) 1998 p.38.

## ATODLEN

Rheoliad 4

## ATODLEN NEWYDD I REOLIADAU CYFRIFON DYSGU UNIGOL CYMRU 2003

## "ATODLEN

Rheoliad 4(5)

## BUDD-DALIADAU NEU LWFANSAU CYMWYS

**1.** Budd-dal Treth Gyngor

**2.** Budd-dal Tai

**3.** Cymhorthdal Incwm

**4.** Lwfans Ceisio Gwaith (Ar Sail Incwm)

**5.** Credyd Pensiwn (Cynilion)

**6.** Credyd Pensiwn (Gwarant)

**7.** Credyd Treth Gwaith."

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003 ("Rheoliadau 2003") yn y ddwy ffordd ganlynol.

Mewnosodir y term "partner sifil" yn Rheoliadau 2003. O ganlyniad i hynny, mae partner sifil yn gyfartal â phriod, plentyn neu lysblentyn o ran cymhwyster o dan reoliad 4 o Reoliadau 2003. Diffinnir "civil partner" yn adran 1(1) o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004.

Diwygir rheoliad 4(5) o Reoliadau 2003 i wneud personau sy'n cael budd-daliadau neu lwfansau penodedig, neu'u dibynyddion, yn gymwys i gael Cyfrif Dysgu Unigol Cymru, ni waeth pa lefel o addysg y maent wedi'i chyrraedd. Mewnosodir Atodlen yn Rheoliadau 2003 sy'n pennu pa fudd-daliadau a lwfansau sy'n gymwys.